

# Minutes



## Cyngor

---

Date: Dydd Mawrth, 23 Ionawr 2024

Time: 5.00 pm

Present: Councillors C Reeks, S Cocks, E Stowell-Corten, J Harris, A Screen, L James, T Harvey, M Howells, P Bright, J Peterson, A Pimm, D Batrouni, D Jenkins, P Drewett, B Davies, S Adan, M Pimm, C Baker-Westhead, J Reynolds, R Howells, A Sterry, J Jones, G Horton, J Cleverly, P Cockeram, D Davies, M Al-Nuaimi, M Evans, D Fouweather, D Harvey, M Kellaway, M Linton, D Mayer, R Mogford, J Mudd, M Spencer, K Thomas, C Townsend, T Watkins, J Clarke, Y Forsey, P Hourahine, J Hughes, J Jordan, L Lacey, S Marshall, A Morris, F Hussain and B Perkins

---

### 1. Rhagofynion

#### 1.i Ymddiheuriadau

Y Cyngorwyr Whitehead a Routley.

#### 1.ii Datgan Buddiannau

Datganodd y Cyngorydd Mogford fuddiant mewn perthynas ag Eitem 10.

Datganodd y Cyngorydd Reynolds fuddiant mewn perthynas ag Eitem 5.

#### 1.iii Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol

Dyma'r cyfarfod olaf i Elizabeth Bryant, Pennaeth y Gyfraith a Safonau sy'n gadael i weithio i Gyngor Plymouth. Dymunodd yr Aelod Llywyddol a chydweithwyr y Cyngor y gorau iddi ar gyfer y dyfodol.

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol am funud o dawelwch am farwolaeth ddiweddar wr y cyn-Gyngorydd Margaret Cornelious, Ken.

### 2. Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 28 Tachwedd 2023 yn amodol ar y canlynol:

Roedd y Cyngorydd Lacey yn bresennol yn y cyfarfod ar 28 Tachwedd, cafodd hyn ei gywiro ar gyfer y Cofnodion cymeradwy.

### 3. Penodiadau

Ystyried y penodiadau arfaethedig a nodwyd yn yr adroddiad

-

Cynigiodd y Cynghorydd Clarke y penodiadau a nodwyd yn yr adroddiad, fel y cytunwyd gan y Rheolwyr Busnes fel y nodir isod.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Reeks.

**Penderfynwyd:** Bod y penodiadau canlynol yn cael eu cytuno.

#### **Penodiadau Cyrff Llywodraethu**

<b>Corff Llywodraethu</b>	<b>Penodiadau/Ymddiswyddiadau</b>	<b>Enw</b>
Ysgol Gynradd Pilgwenlli	Ailbenodiad	Edward Watts
Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair	Ailbenodiad	Charles Ferris
Ysgol Gymraeg Ifor Hael	Ailbenodiad	Jan Cleverly
Ysgol Gymraeg Casnewydd	Ailbenodiad	Alan Speight
Ysgol Gynradd Ringland	Trosglwyddwyd i rôl llywodraethwr amgen	Shaninoor Alom
Ysgol Gynradd Ringland	Penodiad	Stacey Drew

#### **4. Materion yr Heddlu**

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol Uwch-arolygydd Heddlu Gwent, J White, a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau'r Cyngor am faterion yr heddlu yn Nwyrain, Gorllewin a Chanol Casnewydd.

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i siarad gerbron yr Uwch-arolygydd White.

Croesawodd yr Arweinydd adborth yr Uwch-arolygydd White ar ddwyn meddiangar, a oedd yn ganlyniad cadarnhaol i berchnogion siopau.

Mynegwyd pryder gan drigolion a chynghorwyr ward ynglŷn â'r groesfan y tu allan i'r ysgol ar Almond Drive. A allai'r heddlu ychwanegu hyn at eu patrolau a sicrhau bod swyddogion yr heddlu yn bresennol yn yr ardal yn fwy aml?

Byddai'r Uwch-arolygydd yn codi hyn gyda'r Arolygydd Welty a byddai'n sicrhau bod yr ymdrechion mwyaf posibl ar waith wrth symud ymlaen.

#### Cwestiynau i'r Heddlu a ofynnwyd gan y Cynghorwyr:

- Gofynnodd y Cynghorydd Morris a oedd canllaw pendant ar yr hyn a ganiatawyd ynghylch parcio ar balmentydd. Dywedodd yr Uwch-arolygydd fod y palmant yn rhan o'r briffordd ac os oedd y car ar y palmant ac ar ffordd lle mae llinellau melyn dwbl, yna'r Awdurdod Lleol oedd yn gyfrifol am orfodi cosbau. Fodd bynnag, pe bai'r cerbyd yn achosi rhwystr neu niwed diangen trwy barcio mewn man peryglus, gallai'r Heddlu ymdrin â hyn. Roedd yr Uwch-arolygydd yn hapus i drafod yn fanylach y tu allan i'r cyfarfod.
- Talodd y Cynghorydd Al-Nuaimi deyrnged i'r Arolygydd ar gyfer canol y ddinas, Richard Shapland a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ward Stow Hill am y digwyddiadau mewn perthynas â dwyn o siopau a'r achos o atafaelu canabis yn ddiweddar. Roedd yr Arolygydd Shapland hefyd wedi mynd i gyfarfod ward diweddar. Diolchodd yr Uwch-arolygydd i'r Cynghorydd Al-Nuaimi am godi hyn a byddai'n cyfleu ei ddiolch i'r Arolygydd.

- Cyfeiriodd y Cynghorydd James at ddelio cyffuriau ar Wheeler Street, mynegodd trigolion bryderon ynghylch nodwyddau a ganfuwyd y tu allan i ddrysau ffrynt trigolion. Dywedodd y Cynghorydd James fod trigolion wedi codi hyn gydag aelodau ward Shaftesbury a'r heddlu ers chwe mis. Cadarnhaodd yr Uwch-arolygydd fod yr Arolygydd Welty wedi dychwelyd i'r ardal honno a fyddai'n cryfhau'r cymorth yn Shaftesbury. Gwnaeth yr Uwch-arolygydd hefyd annog trigolion i gysylltu â swyddogion cymorth cymunedol lleol ac adrodd am faterion gan fod yr heddlu yn gwerthfawrogi pwysigrwydd gwybodaeth dan arweiniad y gymuned. Dywedodd yr Uwch-arolygydd y byddai'n cysylltu â'r Arolygydd Welty ac y byddai hyn yn cael ei weithredu.
- Roedd yr Aelod Llywyddol yn falch bod yr Arolygydd Welty yn dod yn ôl i Shaftesbury ac roedd hefyd am ddweud diolch ar ran trigolion. Dywedodd yr Uwch-arolygydd fod canlyniadau cadarnhaol yn cael eu mesur yn ôl perfformiad ac y cysylltir â'r Arolygydd Welty i gysylltu â'r Cynghorydd James.

Dywedodd y Cynghorydd Hourahine fod rhagflaenydd yr Uwch-arolygydd yn sôn am fentrau newydd yn dod i Gasnewydd ynghylch beiciau oddi ar y ffordd. Gofynnodd y Cynghorydd Hourahine a allai'r Uwch-arolygydd ymchwilio i'r hyn y gellid ei wneud ynglŷn ag ymateb rhagweithiol gan yr heddlu. Dywedodd yr Uwch-arolygydd mai'r camau pwysicaf oedd atal gwerthu'r beiciau hyn, ac roedd angen mynd i'r afael â hyn gyda deddfwriaeth well. Roedd yn broblem ledled y wlad a'r Arolygydd Giles oedd yn arwain y gwaith o atafaelu beiciau yng Nghasnewydd, gyda llawer mwy o atafaeliadau nag unrhyw le arall. Mae hon yn her barhaus ac yn ogystal ag atal, roedd hefyd yn ymwneud â defnyddio tactegau cymesur a byddai mwy o weithgarwch yn ystod yr wythnosau nesaf.

## 5. **Rhybudd o Gynnig: Nodweddion Gwarchodedig ar gyfer Pobl sydd wedi Profiad o Ofal**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol Arweinydd y Cyngor i gyflwyno'r cynnig, gyda'r Cynghorydd Marshall i'w eilio:

*Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cydnabod bod y Pwyllgor Addysg Plant a Phobl Ifanc a sefydlwyd gan Senedd Cymru yn argymhell bod profiad o fod mewn gofal yn dod yn nodwedd warchodedig yn neddfwriaeth y DU ac yn cefnogi'r Siarter Rhianta Corfforaethol yng Nghymru y mae Llywodraeth Cymru wedi'i chyhoeddi'n ddiweddar gan wahodd sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus i ddod yn Rhiant Corfforaethol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal yng Nghymru.*

### **Mae'r Cyngor hwn yn nodi:**

- *Mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu rhwystrau sylweddol sy'n effeithio arnynt drwy gydol eu bywydau.*
- *Er gwaethaf gwydnwch llawer o bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, nid yw cymdeithas yn ystyried eu hanghenion yn rhy aml.*
- *Mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn aml yn wynebu gwahaniaethu a stigma ar draws tai, iechyd, addysg, perthnasau, cyflogaeth ac yn y system droseddol.*
- *Gall pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal brofi cymorth anghyson mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.*
- *Fel rhieni corfforaethol, mae gan gynghorwyr gyfrifoldeb ar y cyd am ddarparu'r gofal a'r diogelu gorau posibl i'r plant sy'n derbyn gofal gennym ni fel awdurdod.*

- *Fel rhieni corfforaethol bydd Cyngor Casnewydd yn ymrwymo i weithredu fel mentoriaid, clywed lleisiau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o fod mewn gofal ac ystyried eu hanghenion mewn unrhyw agwedd ar waith y Cyngor.*
- *Bydd cynghorwyr yn hyrwyddo'r plant yn ein gofal ac yn herio'r agweddau negyddol a'r rhagfarn sy'n bodoli ym mhob agwedd ar gymdeithas.*

### **Mae'r Cyngor hwn, felly, yn penderfynu:**

- *Ei fod yn cydnabod bod pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn grŵp sy'n debygol o wynebu gwahaniaethu.*
- *Ei fod yn cydnabod bod gan Gyngor Casnewydd ddyletswydd i roi anghenion pobl ddfreintiedig wrth wraidd y gwaith o wneud penderfyniadau drwy gydgyhyrchu a chydweithio.*
- *Y dylid asesu penderfyniadau, gwasanaethau a pholisïau a wneir ac a fabwysiedir gan y Cyngor yn y dyfodol drwy Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb i gael gwybod am effaith newidiadau ar bobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal, ochr yn ochr â'r rheiny sy'n rhannu nodwedd warchoddedig yn ffurfiol.*
- *Bod y Cyngor, wrth gyflawni'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus, yn cynnwys profiad o fod mewn gofal wrth gyhoeddi ac adolygu Amcanion Cydraddoldeb ac yn cyhoeddi gwybodaeth yn flynyddol yn ymwneud â phobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig mewn gwasanaethau a chyflogaeth.*
- *Galw'n ffurfiol ar bob corff arall i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchoddedig tan y gellir ei gyflwyno gan ddeddfwriaeth.*
- *Bod y Cyngor yn parhau i chwilio'n rhagweithiol am leisiau pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal a gwrando arnynt wrth ddatblygu polisïau newydd yn seiliedig ar eu barn.*

Cadwodd y Cynghorydd Mudd yr hawl i siarad ar ddiwedd y drafodaeth.

Cadwodd y Cynghorydd Marshall yr hawl i siarad ar ddiwedd y drafodaeth.

### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Dywedodd y Cynghorydd Davies, er bod nodweddion gwarchoddedig yn cael eu cydnabod dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, yn anffodus, nid yw profiad o fod mewn gofal yn un o'r nodweddion hyn, tra bod tystiolaeth yn dangos ei bod yn amlwg bod hyn yn cael effaith sy'n newid bywydau. Mae gwahaniaethu yn erbyn y rheiny sy'n tyfu i fyny yn y system gofal ac mae ymchwil helaeth wedi'i chynnal i ganlyniadau plant sy'n tyfu i fyny mewn gofal. Mae patrwm clir o gyrhaeddiad addysgol is a llai o debygolrwydd o bontio i addysg uwch, yn ogystal â chanlyniad is o ran iechyd a lles cyffredinol. Mae oedolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn cael eu gorgynrychioli mewn poblogaethau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol, fel carchardai, pobl ddigartref, a gweithwyr rhyw. Felly, cefnogodd y Cynghorydd Davies y cynnig yn ffurfiol i alw ar gyrff eraill i drin profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchoddedig ac, yn bwysicach fyth, chwilio'n rhagweithiol am leisiau pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal a gwrando arnynt i helpu i gefnogi polisïau a chymau gweithredu wrth symud ymlaen.
- Ychwanegodd y Cynghorydd Harvey y dylai plant sydd â phrofiad o fod mewn gofal gael eu trin yr un fath â phlant gartref, na fyddent o reidrwydd yn gadael cartref teuluol yn 16 oed ac felly cefnogodd y cynnig.

- Roedd y Cynghorydd Hourahine yn falch bod y cynnig hwn wedi dod gan un o drigolion ward Sain Silian ac roedd tîm y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cofleidio hyn ac ymchwilio'n drylwyr iddo. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei basio, byddai Casnewydd yn paratoi'r ffordd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.
- Roedd y Cynghorydd Lacey yn falch iawn o gefnogi'r cynnig. Roedd gan lawer o bobl a oedd yn gadael gofal brofiad bywyd a oedd yn eu gwneud yn ddyfeisgar ac yn wydn ac a fyddai'n eu gwneud yn ased i addysg bellach neu yn y gweithle a dylent gael eu cefnogi gan eu Rhiant Corfforaethol.
- Diolchodd y Cynghorydd Drewett i'r bobl ifanc yn yr oriel gyhoeddus am gefnogi'r cynnig heddiw ac i Rowan Aderyn a feddylodd am y syniad. Byddai'r cynnig hwn yn cryfhau'r swyddogaeth rhianta corfforaethol ac yn newid y polisi i gefnogi pobl sydd wedi gadael gofal yn y gorffennol. Pe bai'r cynnig hwn yn cael ei basio byddai'n gatalydd i gynghorau eraill yng Nghymru ac felly, cefnogodd y Cynghorydd Drewett y cynnig yn gryf.
- Cadarnhaodd y Cynghorydd Hughes, yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol (Gwasanaethau Oedolion) fod cynghorwyr wedi cwrdd â'r tîm Llwybr at Annibyniaeth a'r plant a oedd yn ddyfodol Casnewydd yn gynharach y diwrnod hwnnw. Fel Rhiant Corfforaethol mae gan y Cyngor ddyletswydd i'r rheiny mewn gofal ac felly cefnogodd y cynnig.
- Dywedodd y Cynghorydd Corten y dylid pasio'r cynnig.
- Cefnogodd y Cynghorydd Evans y cynnig hefyd a dywedodd fod pobl sy'n gadael gofal mewn perygl o fod yn ddigartref, gan ychwanegu ei bod yn hanfodol bod y Cyngor yn nodi cynllun clir ar gyfer tai cymdeithasol a chymorth gyda chyflogaeth ac addysg.
- Roedd y Cynghorydd Reynolds yn hapus i gefnogi'r cynnig. Gwnaeth y cynnig hefyd fynd i'r afael â materion a brofir gan bobl ifanc sy'n gadael gofal ac felly roedd y Cynghorydd Reynolds yn falch o gefnogi'r cynnig a gobeithiodd y byddai'n cael ei basio'n unfrydol.
- Siaradodd y Cynghorydd Marshall i gefnogi ac eilio'r cynnig i gydnabod 'Profiad o Fod Mewn Gofal' fel nodwedd warchoddedig o fewn fframwaith ymrwymiad y Cyngor i Amrywiaeth a Chydraddoldeb.

Roedd y Cynghorydd Marshall yn falch o nodi bod Cyngor Dinas Casnewydd bob amser yn arloeswr wrth hyrwyddo a dathlu egwyddorion amrywiaeth a chydraddoldeb, a heddiw cawsom gyfle i gymryd cam beiddgar arall ymlaen. Roedd hyn ymhlith y momentwm cynyddol yng Nghymru i gydnabod 'Profiad o Fod Mewn Gofal' fel nodwedd warchoddedig gan gyd-fynd â'n hymrwymiad i gynhwysiant ac yn adlewyrchu dealltwriaeth gymdeithasol ehangach o'r heriau sy'n wynebu unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal.

Amlygodd yr Adolygiad Annibynnol diweddar o Ofal Cymdeithasol Plant yn Lloegr, dan arweiniad Josh McCallister, yr angen i wneud profiad o fod mewn gofal yn nodwedd warchoddedig.

Fel rhieni corfforaethol, mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd i ddarparu'r gofal gorau posibl i'r plant sy'n derbyn gofal gan ein hawdurdod.

I gloi, roedd y cynnig hwn yn gam blaengar a thosturiol ymlaen i'n Cyngor. Anogodd y Cynghorydd Marshal gydweithwyr i ystyried y cynnig hwn, gyda Chasnewydd yn arwain y ffordd yng Nghymru, gan osod esiampl i gynghorau eraill ei dilyn.

- Diolchodd Arweinydd y Cyngor i'r holl gydweithwyr a siaradodd ynghylch y cynnig. Siaradodd yr Arweinydd nid yn unig fel Arweinydd y Cyngor a Rhiant Corfforaethol, ond

hefyd fel mam a mam-gu. Cafodd yr Arweinydd y fraint o roi i Mike Foster wobwr Cyflawniad Oes The Pride of Gwent ym mis Rhagfyr am ei wasanaeth i faethu dros 50 o bobl ifanc, gan sicrhau sefydlogrwydd yn eu bywydau.

Rhannodd yr Arweinydd hefyd eiriau gan Rowan a Terry gyda'r Cynghorwyr:

*Bob 15 munud mae plentyn yn gadael gofal, mae'n ddwywaith yn fwy tebygol o fod yn ddi-waith, deg gwaith yn fwy tebygol o brofi digartrefedd, yn wynebu siawns uwch o 70% o farw'n gynamserol, ac os yw'n mynd i fyd gwaith, yn profi un o'r bylchau cyflog mwyaf yn y DU.*

*Heno, rwy'n sefyll o'ch blaen, nid yn unig fel un o'r plant hynny, ond fel tyst i'w gwydnwch a'u potensial.*

*Nid dim ond label oedd tyfu i fyny'n "blentyn mabwysiedig"; roedd yn sibwrdd a wnaeth fy nilyn trwy gynteddau'r ysgol, yn amheuaeth yn llygaid athrawon, yn rhwystr yn rhwystro rhai cyfleoedd.*

*Yn yr ysgol uwchradd, roeddwn i wir eisiau cymryd pedair Safon Uwch, ond cafodd fy mreuddwyd ei wrthsefyll. Byddai'r athrawon yn dweud "Mae gennych chi gymaint ar eich plât yn barod." Roedd yn rhaid i mi gael cyfarfod ar ôl cyfarfod i gyfiawnhau pam y dylwn i gael fy nghefnogi. Roedd yn weithred a anwyd o garedigrwydd, ond y tu ôl i'r geiriau hynny roedd neges y dylwn i gyfyngu ar fy mhotensial, na ddylwn ddisgwyl cyflawni cymaint â fy nghyfoedion, ac nid oherwydd nad oedd gen i'r graddau ond dim ond oherwydd fy mod wedi fy mabwysiadu.*

*Rwyf yma i ofyn i chi ailysgrifennu'r naratif ar gyfer pob plentyn sydd â phrofiad o fod mewn gofal. Roeddwn i'n ffodus fy mod wedi gwrthod cael fy niffinio gan gyfyngiadau. Brwydrais am fy siawns, a gyda chymorth rhai pobl wych rwyf wedi parhau i ddysgu a thyfu. Rwyf wedi cael gyrfa lwyddiannus iawn fel Pensaer Busnes Arweiniol ar gyfer un o'r cwmnïau ariannol mwyaf yn y DU, ac wedi llwyddo i gwblhau rhestr hir o gymwysterau gan gynnwys gradd meistr yr enillais ragoriaeth ar ei chyfer.*

*Diolch byth nad yw fy stori yn unigryw, ond mae enghreifftiau fel y rhain yn aml yn cael eu hystyried yn eithriad pan ddylen nhw fod yn norm. Mae gan unigolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal gryfderau a safbwyntiau aruthrol, ac eto rydyn ni'n wynebu anfanteision systemig ar draws iechydd, tai, addysg a chyflogaeth.*

*Nid dyma'r unig fannau lle mae pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn wynebu rhwystrau. Hyd yn oed yn ddiweddar, mewn clwb lleol, dywedodd aelod o'r pwyllgor wrthyf "Nid ydyn ni eisiau plant nac oedolion sydd â phrofiad o fod mewn gofal yma." Nid yw'r rhain yn ddigwyddiadau unigol; ac nid dyma'r enghreifftiau gwaethaf rwyf wedi'u clywed o bell ffordd. Maen nhw'n adleisio system nad yw'n ystyried pobl sydd â phrofiad o fod mewn gofal yn ddilys, fel rhai sy'n haeddu cyfle cyfartal.*

*Heno, mae gennym gyfle i newid y naratif hwn. Trwy gydnabod profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchoddedig, rydyn ni'n anfon neges bwyrus: "Rydyn ni'n eich gweld chi. Rydyn ni'n eich gwerthfawrogi chi. Ac rydyn ni wedi ymrwymo i adeiladu dyfodol lle gallwch ffynnu, ochr yn ochr â phawb arall."*

*A chyn i ni adeiladu'r dyfodol hwnnw, gadewch i ni gymryd eiliad i gydnabod y bobl anhygoel ddaeth â ni yma.*

*Heb ofal maeth, ni fyddwn i'n fyw heddiw. Heb y gweithwyr cymdeithasol, a'r meddygon, a'r heddlu a'r athrawon fu'n gweithio i greu lle diogel lle gallwn i dyfu, ni fyddwn i'n eistedd yma gyda chi. A byddai'r holl bethau gwych rwyf wedi'u cyflawni a'r teulu hardd rwyf mor falch ohono wedi parhau'n freuddwyd yn unig.*

*Felly i'r rhieni maeth sy'n agor eu cartrefi a'u calonnau, i'r gweithwyr cymdeithasol sy'n brwydro dros ein diogelwch, i'r addysgwyr sy'n gweld ein potensial, ac i'r cyflogwyr fel fy un i sy'n chwalu rhwystrau, ac i bob un llais a ymunodd â'r corws hwn dros gydraddoldeb – diolch. Eich dewrder, eich cymorth diysgog, eich cred ynon ni yw'r sylfaen y mae'r mudiad hwn yn sefyll arni.*

*Gwnaeth Terry ysgogi'r newid yma dros ddwy flynedd yn ôl a heno rydyn ni'n creu'r ysgogiad hwnnw yng Nghymru.*

*Onid nid yw ein taith wedi dod i ben. Trwy gydnabod profiad o fod mewn gofal fel nodwedd warchoddedig, rydyn ni'n sicrhau'r ffocws i barhau i adeiladu dyfodol gwell i'r plant hyn a lle mae ffocws yn llifo, mae cynnydd yn dilyn. Byddwn yn galluogi sgwrs, yn annog ystyriaeth, ac yn diogelu bywydau cymaint o bobl yn y dyfodol. Wrth i ni ymgorffori'r gydnabyddiaeth hon trwy brosesau a chymunedau bydd ein hymdrechion yn datgloi cyfleoedd i'r plant hyn ffynnu.*

*Mae hyn yn ymwneud â buddsoddi yn ein cymuned gyfan. Mae astudiaethau'n dangos bod cefnogi unigolion â phrofiad o fod mewn gofal yn arwain at ganlyniadau economaidd gwell, teuluoedd cryfach, a chymdeithas fwy cydlynol. Nid yw'n ymwneud â thegwch a chyfiawnder yn unig.*

*Rwy'n sefyll o'ch blaen nid yn unig fel cynnyrch y system, ond fel tyst i'w potensial. Heddiw, gadewch i ni bleidleisio ie, gadewch i ni adeiladu dyfodol lle mae pob plentyn, waeth beth fo'i gefndir, yn cael cyfle i ffynnu. Gyda'r cymorth cywir, gall pob person sydd â phrofiad o fod mewn gofal wireddu dyfodol y gall dim ond freuddwydio amdano. Gadewch i ni fuddsoddi yn ei ddyfodol a dyfodol pawb sydd eto i ddod. Gyda'n gilydd fe allwn ni.*

Yn olaf, diolchodd yr Arweinydd i John Griffiths AoS, Jayne Bryant AoS, Aelodau'r Cabinet, y Cynghorydd Hourahine, Rowan a Terry am rannu eu straeon ac i bawb a oedd yn bresennol yng nghyfarfod y Cyngor. Am y rhesymau hynny, cefnogodd yr Arweinydd y cynnig.

#### **Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn cefnogi'r cynnig yn unfrydol.

## **6. Cynllun Gostyngiadau Treth y Cyngor**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i gyflwyno'r adroddiad cyntaf a oedd yn manylu ar y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor ar gyfer 2024-25 a oedd angen cymeradwyaeth y Cyngor.

Mae Gostyngiad y Dreth Gyngor yn rhoi gostyngiadau i aelwydydd incwm isel gan leihau'r dreth gyngor y maent yn agored i'w thalu.

Yn wahanol i Loegr, mae cynllun Cymru gyfan sy'n cynnig fframwaith ar gyfer asesu ceisiadau ac yn dileu'r loteri cod post a allai ddeillio o gynlluniau unigol.

Mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo'r cynllun Cymru gyfan, ynghyd â rhai meysydd yn ôl disgrisiwn.

Mae'r adroddiad heddiw hefyd yn nodi rhai diwygiadau technegol i'r cynllun. Mae'r diwygiadau technegol i'r cynllun yn gymharol fach eu natur ac maent yn ymdrin â didyniadau person annibynnol a chynyddu lwfansau personol yn flynyddol, yn ogystal â rhai newidiadau rheoleiddio technegol fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

Mae meysydd lle mae gan y Cyngor ddisgresiwn wrth weithredu rhai agweddau ar y cynllun sy'n fuddiol i'r Cyngor ac i dderbynwyr y gostyngiad.

Pe na bai'r cynllun yn yr adroddiad yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol, byddai'r meysydd yn ôl disgresiwn yn cael eu colli, a byddai'r cynllun Cymru gyfan safonol diofyn yn berthnasol yn lle hynny.

Eiliodd y Cynghorydd Harvey yr adroddiad.

#### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Dywedodd y Cynghorydd Davies fod gan Gasnewydd un o'r Trethi Cyngor isaf yng Nghymru, fodd bynnag, mae trigolion bob amser a fyddai'n ei chael yn anodd talu am amrywiaeth o resymau. Mae'n bwysig bod y rheiny sy'n derbyn budd-daliadau yn gwneud cais am gymorth. Mae'r arian a neilltuwyd yn benodol yng nghyllideb y Cyngor yn cefnogi'r unigolion hyn. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r rheiny sy'n gymwys i gael disgownt fel pobl sy'n byw ar eu pennau eu hunain, neu'r rheiny a aseswyd fel rhai sydd â nam meddyliol, gan olygu gostyngiad o 25% mewn taliadau. Mae Gofalwyr Cofrestredig sy'n derbyn Lwfans Gofalwr hefyd yn gymwys.

#### **Penderfynwyd:**

Bod y Cyngor yn cymeradwyo'n unfrydol y Cynllun Gostyngiad y Dreth Gyngor ar gyfer 2024/25 yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2013 ("y Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig") wrth arfer ei ddisgresiwn lleol fel y nodir yn yr adroddiad.

## **7. Premiymau Treth y Cyngor**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol yr Arweinydd i gyflwyno'r adroddiad nesaf a oedd yn delio â chartrefi gwag hirdymor ac ail gartrefi yn y ddinas a'r posibilrwydd o gyflwyno premiymau Treth Gyngor ar gyfer yr eiddo hyn. Mae galw cynyddol am dai a phrinder tai yn y ddinas â chostau 'ariannol' i'r Cyngor a chostau 'cymdeithasol' o ran effaith hyn ar unigolion a theuluoedd.

Yn ogystal â diffyg cyffredinol o ran nifer y tai sydd ar gael, mae gan Gasnewydd nifer fawr barhaus o eiddo gwag: Byddai premiymau Treth Gyngor, pe byddent yn cael eu cyflwyno, yn annog perchnogion i gymryd camau i adfer eu heiddo i'w defnyddio eto.

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr ac yn dilyn ymarfer ymgynghori â'r cyhoedd, penderfynodd y Cabinet argymell y dylai'r Cyngor fabwysiadu'r cynnig i gyflwyno premiymau treth gyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor ac ail gartrefi yn y ddinas. Nododd yr adroddiad y cynnig.

Byddai premiymau treth gyngor, pe byddent yn cael eu cyflwyno, yn golygu bod perchnogion ail gartrefi a'r rheiny a oedd yn gadael eiddo'n wag am fwy na blwyddyn yn gorfod talu treth gyngor ychwanegol.

Yr amcan oedd annog perchnogion i gymryd camau i adfer eiddo i'w defnyddio eto.

Tra bod llai o ail gartrefi, dylid sicrhau dull gweithredu cyson ar gyfer yr eiddo hyn sy'n cael eu tanddefnyddio.

Crynhodd yr adroddiad y gefnogaeth gan y cyhoedd i'r ddau newid hyn fynd rhagddynt fel y nodwyd yn y 470 o ymatebion a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus.



Felly, roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i fabwysiadu premiymau treth gyngor yng Nghasnewydd, ar gyfer ail gartrefi ac eiddo gwag hirdymor.

Roedd y ddeddfwriaeth yn rhoi rhai eithriadau a oedd yn atal premiwm rhag cael ei godi mewn rhai amgylchiadau. Yn dilyn adborth o'r ymgynghoriad ac i fynd i'r afael â phryderon rhanddeiliaid, argymhellwyd rhai eithriadau 'lleol' cyfyngedig ychwanegol.

#### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Roedd gan y Cynghorydd Evans farn gymysg ar yr adroddiad a chyfeiriodd at ffigyrau yn y cynllun corfforaethol fel rhai annigonol. Er ei fod yn cydnabod bod angen gweithredu radical, mae eiddo gwag yn fater cymhleth na ellir mynd i'r afael ag ef o bosibl dan y dull gweithredu hwn. Er bod eithriadau statudol i dalu premiymau, dylid gweithredu dull mwy pragmatig. Dim ond 15 ail gartref sydd yng Nghasnewydd ac nid oedd y Cynghorydd Evans yn credu y dylai eu treth gyngor ddyblu ac efallai na fyddai'n werth ei chasglu na mynd ar ei thrywydd. Nid oedd y Cynghorydd Evans yn erbyn cymryd camau rhesymol yn erbyn yr ôl-groniad o eiddo gwag sy'n difetha'r ddinas ond ni allai gefnogi'r newidiadau mewn perthynas ag ail gartrefi ac felly byddai'n ymatal rhag cefnogi'r adroddiad.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Davies at gartrefi gwag y cefnwyd arnynt yng Nghasnewydd a dywedodd y gallai un tŷ a oedd mewn cyflwr gwael ac yn cael effaith negyddol ym marn cymdogion gael ei ddefnyddio ar gyfer un o'r dros 9,000 o bobl gofrestrdig yng Nghasnewydd sydd angen cartrefi fforddiadwy yn ogystal â hyn gallai defnyddio'r cartrefi hyn atal ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd. Roedd 2,565 o eiddo gwag.
- Dywedodd y Cynghorydd Clarke fod y sefyllfa yng Nghasnewydd yn debyg drwy'r DU. Roedd Casnewydd eisiau gweithio gyda pherchnogion eiddo a thrwy weithio gyda'n gilydd, cynhyrchu canlyniadau cadarnhaol. Roedd yn rhaid i ni wrando ar drigolion Casnewydd hefyd ac yn yr ymgynghoriad, dangoswyd mai dyma oedden nhw ei eisiau.
- Datganodd y Cynghorydd M Howells fuddiant ar y cam hwn a chyfeiriodd at 3.1 yn yr adroddiad ar Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac eiddo gwag strategol wedi'u neilltuo ar gyfer datblygu ar raddfa fawr. Gofynnodd y Cynghorydd Howells a fyddai'r Cyngor yn datblygu polisi i gydbwyso anghenion cartrefi a datblygiadau yn y dyfodol. Byddai cydweithwyr craffu'n ymwybodol o hyn gan fod eiddo landlordiaid cymdeithasol sy'n aros yn wag wedi'u codi yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Perfformiad - Lleuedd a Chorfforaethol. Roedd hyn hefyd yn rhywbeth yr oedd trigolion yn cwyno amdano i aelodau ward yn Llyswry. Dywedodd yr adroddiad y byddai Polisi yn cael ei ddatblygu i ddelio â hyn. Roedd y Cynghorydd M Howells eisiau eglurhad ynghylch a fyddai hyn yn mynd i'r Cyngor llawn i'w gadarnhau neu a fyddai'r Pwyllgor Craffu Perfformiad - Lleuedd a Chorfforaethol yn mynd i'r afael ag ef. Yn ogystal, mewn perthynas â hyn, hoffai'r Cynghorydd M Howells weld y Cyngor yn mynd â hyn ymhellach gan ei fod yn broblem yng Nghasnewydd a hoffai weld adroddiadau a oedd yn edrych ar eiddo sydd wedi'u neilltuo ar gyfer ailddatblygu, ac a ellid eu defnyddio ar gyfer llety dros dro. Yn olaf, gofynnodd y Cynghorydd M Howells a ellid defnyddio neu ailwrpasu eiddo busnes ar gyfer y rheiny sy'n chwilio am gartrefi hefyd.

Siaradodd y Cynghorydd Drewett, y Cynghorydd Adan, y Cynghorydd Corten a'r Cynghorydd Harvey i gefnogi'r cynnig.

- Gofynnodd y Cynghorydd Evans am eglurhad ynglŷn â'r ymgynghoriad ar ail gartrefi, gan fod y ffigyrau yn wahanol i hynny mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar dai gwag.

- Diolchodd yr Arweinydd i'w gydweithwyr am gymryd rhan weithredol yn y drafodaeth ac am wrando'n astud ar y sylwadau a wnaed. Fel Cyngor gellid rhoi pwerau rheoleiddiol a statudol ar waith er mwyn sicrhau newid. Fel Cyngor sy'n gwrandio dyma'r newid y mae trigolion wedi gofyn amdano. Mae'r pecyn cymorth wedi bod ar waith ers peth amser ac erbyn hyn mae angen cynllun gweithredu i ddarparu cymhelliant ac arweiniad i bobl gryfhau hyn. Roedd hyn yn ymwneud â gweithio gyda'n gilydd, a diolchodd yr Arweinydd i'r Rheolwr Refeniw a Budd-daliadau am weithio'n galed ar yr adroddiad. Y camau nesaf gyda phartneriaid LCC oedd datblygu ymhellach a gofyn am eu barn i greu polisi, a fyddai'n cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad – Lleoedd a Chorfforaethol maes o law.

### **Penderfynwyd:**

Ystyriodd y Cyngor argymhelliad y Cabinet i gyflwyno premiymau treth gyngor ar gyfer eiddo gwag hirdymor. Felly, gwnaeth y Cyngor gynnig argymhelliad i gyflwyno premiymau Treth Gyngor yn unol â pharagraff 3.1 a amlinellwyd yn yr adroddiad, o 1 Ebrill 2024 ar gyfer cartrefi gwag hirdymor a 1 Ebrill 2025 ar gyfer ail gartrefi ar gyfradd o 100%.

## **8. Adroddiad Blynyddol Llywodraethu ac Archwilio**

Gwahoddodd yr Aelod Llywyddol y Cyfarwyddwr Strategol, Trawsnewid a Chorfforaethol i gyflwyno'r adroddiad.

Hwn oedd yr Adroddiad Blynyddol cyntaf gan Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Casnewydd. Roedd yr adroddiad yn edrych ar waith a wnaed gan y Pwyllgor yn y flwyddyn 2022/23 ac roedd yn cynrychioli arfer gorau.

Newidiwyd rôl a swyddogaeth y Pwyllgor Archwilio blaenorol o ganlyniad i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Creodd hyn y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio presennol. Roedd cylch gorchwyl y Pwyllgor yn Atodiad 1 yr adroddiad.

Mae'r pwyllgor yn cynnwys tri Aelod Lleyg – Mr Gareth Chapman (Cadeirydd), Mr Don Reed (Is-gadeirydd) a Dr Norma Barry, ynghyd â phum Aelod Etholedig, y Cynghorwyr Cocks, Harris, Horton, Jordan, a Mogford.

Diolchodd y Cyfarwyddwr Strategol i holl Aelodau'r Pwyllgor am eu her a'u hasesiad o drefniadau llywodraethu amrywiol. Mae hyn yn rhan hanfodol o brosesau sicrwydd y Cyngor a dylai gwaith cadarn y Pwyllgor roi lefel o gysur i'r Cyngor ynghylch rheoli rheolaethau ariannol, risg a threfniadau llywodraethu ar y cyd.

Crynhodd yr adroddiad y gweithgareddau allweddol a gynhaliwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2022/23.

Daeth yr Adroddiad Blynyddol i'r casgliad bod y Pwyllgor wedi gweithredu yn unol â'r gofynion a nodir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a chyflawni ei ddyletswyddau deddfwriaethol.

Eiliwyd yr adroddiad gan y Cynghorydd Evans.

### Sylwadau gan y Cynghorwyr:

- Gwnaeth y Cynghorydd Cocks fel aelod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio fyfyrion ar drylwyredd archwilio mewnol a swyddogion. Roedd hefyd yn rhoi golwg aruthrol ar waith y swyddogion yn ystod hinsawdd ariannol anodd a pha mor dda yr oeddent yn darparu gwasanaethau.

**Penderfynwyd:**

- Derbyniodd y Cyngor fod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cyflawni ei gyfrifoldebau deddfwriaethol a chytunodd ar adroddiad blynyddol y Pwyllgor.
- Diolchodd y Cyngor i aelodau'r pwyllgor am eu her gadarn a'u gwaith caled yn ystod y flwyddyn.

**9. Amserlen Cyfarfodydd 2024/25**

Cyflwynodd yr Aelod Llywyddol yr eitem hon i'r Cynghorwyr gan roi'r dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd pwyllgorau ar gyfer 2024/25.

**Penderfynwyd:**

Mabwysiadu'r amserlen o gyfarfodydd ar gyfer trefniadau mis Mai 2024 i fis Mai 2025, gan gydnabod ei bod yn agored i newid a diwygio er mwyn bodloni anghenion rhaglenni gwaith pob pwyllgor neu grŵp arall.

**10. Enwebiad Maer 2024/25**

Gofynnodd yr Aelod Llywyddol i'r Arweinydd gyflwyno'r eitem hon ynghylch enwebu'r Maer ar gyfer 2024/25.

Cynigiodd yr Arweinydd y Cynghorydd Ray Mogford yn ffurfiol fel y Maer ar gyfer y flwyddyn ddinesig 2024/25, a eiliwyd gan Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd Matthew Evans.

Roedd y Cynghorydd Mogford yn gynghorydd ar gyfer Ward Langstone ers 2012 ac roedd yn eistedd ar nifer o bwyllgorau gan gynnwys Cynllunio, Llywodraethu ac Archwilio ac ar hyn o bryd roedd yn Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd.

Roedd y Cynghorydd Mogford hefyd ar fwrdd llywodraethwyr Ysgolion Cynradd Langstone a Llanfarthyn.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddymuno'n dda i Ray a Sallie am eu cyfnod yn swyddfa'r Maer ar gyfer 2024/25.

Cefnogodd Arweinydd yr Wrthblaid, y Cynghorydd Evans enwebu'r Cynghorydd R Mogford fel y Maer ar gyfer 2024/25.

**Penderfynwyd:**

Cefnogodd y Cyngor enwebu'r Cynghorydd R Mogford fel y Maer.

**11. Cwestiynau i Arweinydd y Cyngor**

Cyn dechrau gyda chwestiynau, gwnaeth yr Arweinydd y cyhoeddiadau canlynol i'r Cyngor:

**Cyhoeddiad Tata**

Ddiwedd yr wythnos ddiwethaf, gwnaeth Tata ei gyhoeddiad ysgytwol am golli nifer enfawr o swyddi yn ei fusnesau dur yn y DU, yn bennaf yn Port Talbot y mae'r gweithwyr yno'n cynnwys trigolion Casnewydd.

Roedd ei ddatganiad hefyd yn sôn am y posibilrwydd o ddileu swyddi yng ngwaith dur Llan-wern yma yn y ddinas.

Mae'r Cyngor yn deall y gallai hyd at 300 o swyddi gael eu colli yng ngwaith dur Llan-wern dros y blynyddoedd nesaf ac y bydd 2,500 o bobl yn colli eu swyddi yn Port Talbot. Dyma ergyd ofnadwy arall i ddiwydiant a fu unwaith mor bwysig i economi Casnewydd a De Cymru.

Rwy'n siŵr ein bod ni i gyd yn meddwl am y gweithwyr hynny, a'u teuluoedd, sydd bellach yn wynebu cyfnod arall o ansicrwydd wrth aros i gael gwybod sut y bydd y cyhoeddiad yn effeithio arnynt.

Bydd ein tîm gwaith a sgiliau ar gael i gynnig cyngor a chymorth i'n trigolion sy'n wynebu colli eu swyddi naill ai yn Llan-wern neu Port Talbot pan fo angen.

## **Mannau Cynnes**

Rwy'n falch o ddweud i gydweithwyr ein bod unwaith eto wedi gallu cefnogi mannau cynnes yng Nghasnewydd y gaeaf hwn.

Hyd yma, mae 16 grant wedi'u dyfarnu i sefydliadau ledled y ddinas sy'n cynnig amgylchedd diogel, croesawgar a chyfforddus i drigolion a allai fod yn ei chael yn anodd gwresogi cartrefi neu sydd mewn perygl o gael eu hynysu.

Mewn partneriaeth â GAVO, mae mwy na £35,000 eisoes wedi'i roi gan ddefnyddio cyllid gan Gronfa Ffyniant Gyffredin llywodraeth y DU.

Mae'n dilyn llwyddiant cynllun tebyg y llynedd pan roddwyd grantiau i 21 grŵp a gyflwynodd 448 sesiwn, gyda dros 6,300 o bobl yn bresennol.

Dyma un o'r ffyrdd rydym yn cefnogi sefydliadau a thrigolion yn ystod yr argyfwng costau byw parhaus.

Mae llawer iawn o waith rhagorol ledled y ddinas gyda chymorth yn cael ei rhoi gan ein staff a'n partneriaid. Mae hyn wedi cynnwys rhoi talebau siopa, aelodaeth Casnewydd Fyw a thocynnau pantomeim i ofalwyr, a chymorth ariannol i fanciau bwyd.

Un arall o'r mentrau hynny oedd ystod eang o weithgareddau am ddim i deuluoedd a phlant a gynhaliwyd ledled y ddinas yn ystod gwyliau Nadolig diweddar ysgolion. Ac fel budd ychwanegol, roeddem hefyd yn gallu partneru gyda Bws Casnewydd i gynnig trafndiaeth am ddim ar gyfer y sesiynau hynny.

## **Casgliadau coed Nadolig**

Gwnaethom ddechrau'r flwyddyn newydd gyda chynllun positif arall - casglu coed Nadolig go iawn.

Roedd trigolion yn gallu trefnu casgliad carreg drws am ddim – cafodd dros 2,000 o gasgliadau eu trefnu, ac mae pob coeden wedi gwneud ei ffordd i'n cyfleuster compostio mewnol i'w thorri'n ddarnau a'i chompostio.

## **Ardaloedd chwarae newydd a gwell**

Yn gynharach y mis hwn, cefais yr anrhydedd o ymuno â myfyrwyr Heddlu Bach o Ysgol Gynradd Llys Malpas, y Maer a'r Faeres a chydweithwyr yn y Cabinet i nodi cwblhau'r ardal chwarae newydd a gwell yn Darwin Drive ym Malpas.

Mae'r ardal chwarae wedi elwa ar offer chwarae a lloriau newydd sbon, yn ogystal ag ailbaentio'r ffens.

Mae'r offer chwarae newydd sydd wedi'i osod ar y safle yn cynnwys ardaloedd aml-chwarae ar gyfer plant bach a phobl iau, si-so, siglenni newydd a chylchfannau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn.

Dyma'r ardal chwarae ddiweddaraf i gael ei huwchraddio fel rhan o raglen fuddsoddi'r Cyngor i wella ardaloedd chwarae ledled Casnewydd.

Bydd pob ardal chwarae sydd wedi'i chynnwys yn y rhaglen yn cael ei huwchraddio yn dilyn ymgynghori â thrigolion lleol, fel bod eu hanghenion a'u dewisiadau yn cael eu hystyried ar bob cam o'r gwaith.

Mae ymgynghoriadau bellach ar agor ar gyfer ardaloedd chwarae yn Shaftesbury a Sain Silian, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn mynd i'n gwefan a dweud eich dweud.

### **Mynd i'r afael â fêps a thybaco anghyfreithlon**

Yr wythnos ddiwethaf bu ein tîm safonau masnach unwaith eto yn cymryd rhan mewn ymgyrch amlasiantaethol fel rhan o'r gwaith parhaus o fynd i'r afael â fêps a thybaco anghyfreithlon.

Mae'r swyddogion wedi bod yn hynod lwyddiannus wrth ddatgelu'r ymgyrchoedd hyn, atafaelu'r cynhyrchion anghyfreithlon, cau'r safleoedd a sicrhau erlyniadau.

Ni allaf ddweud llawer mwy gan fod y cyrchoedd diweddaraf hyn yn destun ymchwiliadau parhaus, ond mae'n dangos ein penderfyniad i gael gwared â'r busnesau hyn a ddefnyddir yn aml i ariannu gweithgareddau troseddol.

Hoffwn ddiolch i'r swyddogion ymroddedig sy'n rhan o'r gwaith hwn a'n partneriaid.

### **Gweithgareddau hanner tymor**

Rwyf eisoes wedi sôn am y gweithgareddau teuluol llwyddiannus a gynhaliwyd dros gyfnod y Nadolig - dros wyliau ysgol hanner tymor mis Chwefror, bydd timau'r Cyngor, gan gynnwys ein gweithwyr ieuencid a chwarae, unwaith eto yn cynnal digwyddiadau am ddim i blant. Bydd y rhain yn cynnwys gweithgareddau cynhwysol i'r teulu cyfan, sesiynau tawel a synhwyraidd.

Bydd gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn ystod yr egwyl hanner tymor nesaf yn cael ei chyhoeddi cyn gynted ag y bydd yr holl fanylion ar gael, a byddwn yn annog aelodau i ledaenu'r gair yn lleol. Cynhelir y digwyddiadau mewn gwahanol leoliadau ac maent yn agored i blant o bob rhan o'r ddinas.

Yn olaf, ar ran Cyngor Dinas Casnewydd, hoffwn ddweud diolch enfawr i Sir Casnewydd ar eu buddugoliaeth Un-Dim dros Wreccsam yn Rodney Parade ar y penwythnos. Yn ogystal â phob lwc i'r rheolwr a'r chwaraewyr ar gyfer gêm y Gymdeithas Pêl-droed yng Nghasnewydd yn erbyn Manchester United.

### **Cwestiynau i'r Arweinydd**

#### Y Cynghorydd Evans:

Oherwydd y cyfyngiad o 15 munud, roedd aelodau'r wrthblaid yn teimlo nad oedd cyfle ganddynt i ofyn cwestiynau, felly gwrthododd y Cynghorydd Evans y cyfle i ofyn cwestiwn.

#### Y Cynghorydd Morris:

Pryd fyddai'r Arweinydd yn mynd i'r afael â chyllideb y Cyngor, yn torri'r gwastraff ac yn dechrau sicrhau gwerth am arian ar gyfer gwasanaethau ac yn darparu cynnydd realistig mewn cyfraddau na fyddai'n brifo'r bobl a gynrychiolwyd.

### Ymateb:

Dyweddod yr Arweinydd wrth gydweithwyr nad hon oedd y drafodaeth ar y gyllideb ond y cwestiynau rheolaidd i'r Arweinydd ac felly nid oedd yn gallu gwneud sylwadau ar ganlyniadau'r ymgynghoriad nad oedd wedi'i gwblhau hyd yma.

Fodd bynnag, gwnaeth yr Arweinydd rai pwyntiau cyffredinol ar y gyllideb ac ar gyllid i'r holl Aelodau. Fis diwethaf, ar 12 Rhagfyr, roedd sesiwn hyfforddi ar gael i bob aelod ar y cyllid a'r gyllideb. Cynhaliwyd sesiwn hyfforddi debyg ym mis Rhagfyr y llynedd. Roedd y rhain yn ddau gyfle i'r Aelodau ddatblygu dealltwriaeth o gyllid awdurdod lleol. Er bod hyfforddiant ar waith, roedd gwahaniaeth rhwng refeniw, cyfalaf a chronfeydd wrth gefn mewn perthynas â'r gyllideb. Gallai'r Pennaeth Cyllid roi nodyn manylach i'r Aelodau i'w helpu i ddeall y gwahaniaeth rhwng cronfeydd wrth gefn a chronfeydd wrth gefn clustnodedig.

Gwnaeth yr Arweinydd bwynt hefyd ar danwariant cyllidebol, adroddwyd yn rheolaidd i'r Cabinet a'r Cyngor ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Fel y gwyddom, mewn unrhyw flwyddyn benodol, efallai y bydd gwariant yn amrywio. Er enghraifft, ar gyfer eleni, ac ar yr adeg hon, adroddwyd yn ôl ar gost gynyddol gofal cymdeithasol, y pwysau cynyddol gyda digartrefedd a sut yr effeithiodd ar wariant. Cyflwynwyd adroddiad ar sawl achlysur bod gorwariant ar y pwynt mewn amser yn y meysydd hynny. Ar adeg y cyfarfod, roedd y rhagolygon yn parhau i ddangos gorwariant oherwydd y pwysau ar wasanaethau. Roedd yn bwysig deall, er bod y flwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth, nad oedd y Cabinet yn gallu ystyried cyfrifon wedi'u cymodi tan fis Mehefin neu fis Gorffennaf a dyma lle byddai gorwariant neu danwariant yn cael ei ddarganfod. Os oedd y Cyngor yn dal i fod â gorwariant ar y pwynt hwn, yna rhaid gwneud darpariaeth, sef rhaid ystyried Cyllid yn rhywbeth sy'n hyblyg ac nad yw'n gyson ar unrhyw un adeg mewn amser ac wrth ystyried patrymau gwario, yn enwedig o ran y gyllideb refeniw, yn ymwneud â rhagolygon gwariant. Unwaith eto, cynigiodd yr Arweinydd y byddai'r Pennaeth Cyllid, cyn y drafodaeth ar gyllid, yn dosbarthu nodyn briffio i'r aelodau etholedig yn nodi'r pethau sylfaenol mewn perthynas â chyllid, er mwyn rhoi hyder iddynt yn eu cyfraniad at y drafodaeth ar y gyllideb.

### Y Cynghorydd Drewett:

A allai'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf am galendr digwyddiadau Dinas Casnewydd a dangos effaith gadarnhaol y digwyddiadau hyn ledled y ddinas.

### Ymateb:

Roedd yr Arweinydd yn falch o argymhell bod cynghorwyr yn edrych ar y dudalen we Digwyddiadau Casnewydd. Gall pob grŵp a gwahanol fusnesau a sectorau gwirfoddol lwytho eu digwyddiadau i'r dudalen. Mae hyn yn golygu bod calendr cyfoes o ddigwyddiadau sy'n digwydd ledled y ddinas. Mae'r Arweinydd yn falch o'r datblygiad hwn sy'n dod â phopeth ynghyd ar gyfer dinasyddion ac ymwelwyr.

O ran tystiolaeth, mae'n anodd ei chasglu ond mae'r Arweinydd yn falch o ddweud, yn ôl data o'r feddalwedd gyfrif swyddogol, fod nifer yr ymwelwyr yng nghanol y ddinas am y cyfnod hyd at ddiwedd mis Hydref 2023 5.3% yn fwy na 10 mis cyntaf 2019. Hon oedd y flwyddyn fasnachu olaf cyn Covid. Felly, roeddem yn dechrau gweld adferiad ac roedd y feddalwedd a oedd yn cael ei defnyddio'n helpu i dynnu sylw at y gwahaniaeth yr oedd effaith y digwyddiadau'n ei chael. Roedd yr Arweinydd yn falch o'r ystadegau a ledled Cymru roedd nifer yr ymwelwyr ar gyfer yr un cyfnod wedi gostwng 13% ac yn y DU cyfan wedi gostwng bron 14%. Roedd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau hyn yn rhad ac am ddim ac yn cynnig cyfleoedd i ddinasyddion fynychu digwyddiadau, roedd hefyd yn helpu i dynnu sylw at Gasnewydd. Yn ôl yr Ardal Gwella Busnes (AGB) denodd y digwyddiad ar drywydd y Nadolig bron i 9,000 o ymwelwyr, gwnaeth hyn wahaniaeth i fusnesau a denodd ymwelwyr i siopa yng nghanol y ddinas yn ystod y cyfnod hwn.

Cafwyd nifer o ddigwyddiadau nodedig yn 2023, fel Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru, roedd gweld teuluoedd a phobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a'r cyngerdd am ddim gyda'r nos yn anhygoel. Digwyddiadau eraill a gynhaliwyd oedd y Sblash Mawr, Balchder yn y Porthladd, yr Ŵyl Fwyd, Terfysg Casnewydd a'r parêd yng ngolau fflaglau hyfryd. Roedd Casnewydd, fel Cyngor Dinas, yn cefnogi grwpiau ac unigolion i wneud ein dinas yn gyrchfan i bawb. Roedd busnesau yn dechrau datblygu ledled y ddinas oherwydd digwyddiadau ac fel cynghorwyr, ni ddylem anghofio'r buddion y gall y calendr digwyddiadau eu cynnig. Roedd yr Arweinydd yn edrych ymlaen at weld cydweithwyr yn mynd i ddigwyddiadau yn ystod 2023, yn enwedig 80 mlwyddiant D-Day.

## 12. Cwestiynau i Aelodau'r Cabinet

### **Cwestiwn 1: Yr Aelod Cabinet dros Seilwaith ac Asedau:**

#### **Y Cynghorydd Reeks:**

Mae cyllideb arfaethedig 2024/2025 yn ceisio codi referniw drwy gynyddu taliadau ar draws meysydd parcio gan gynnwys maes parcio Canolfan Ffordd y Brenin 9%, a allai atal mwy o siopwyr rhag mynd i ganol y ddinas.

Oni fyddai'r Aelod Cabinet yn cytuno â mi, trwy reoli'r maes parcio ei hun yn well, fel peidio â chael y goleuadau'n rhedeg drwy'r nos ac agor y maes parcio ar holl ddiwrnodau gemau Rodney Parade i ddod â mwy o fasnach i'r maes parcio, y gellid codi mwy o referniw o bosibl, ac na fyddai siopwyr yn cael eu cosbi am ddod â'u masnach i ganol y ddinas?

#### **Ymateb gan y Cynghorydd Lacey:**

Mae maes parcio Ffordd y Brenin yn cynnig cyfleuster ardderchog i ymwelwyr â'r ddinas, gan fod yn faes parcio modern yn agos at atyniadau'r Ddinas. Mae'r cyfleuster, sy'n defnyddio goleuadau ynni-effeithlon, yn gweithredu goleuadau lefel argyfwng pan nad yw'r maes parcio yn cael ei ddefnyddio. Ynghyd â'n gwaith arall o leihau allyriadau carbon gweithgareddau'r Cyngor, fel y cynnydd yn ein fflyd cerbydau trydan ein hunain, rydym ar hyn o bryd yn bwrw ymlaen â chynllun i osod system paneli solar ar do Ffordd y Brenin a fydd yn darparu ynni ar gyfer y maes parcio.

Mae'r maes parcio fel arfer ar agor bob dydd ac eithrio Dydd Nadolig a Dydd Calan, gyda'i agor ar Ddydd San Steffan yn cael ei ystyried yn flynyddol. O'r herwydd, byddai unrhyw alw ar ddiwrnodau gemau Rodney Parade yn cael ei ateb ac eithrio ar y ddau ddiwrnod hynny y flwyddyn. Os bydd Ffordd y Brenin ar gau, bydd meysydd parcio eraill y Cyngor ar gael.

### **Cwestiwn 2: Yr Aelod Cabinet dros Newid Hinsawdd a Bioamrywiaeth**

#### **Y Cynghorydd Mogford:**

O fewn cynllun corfforaethol blaenorol Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) (2017-2022) nodwyd "Rydym wedi adfer y rhaglen wastraff a sbwriel "Balchder yng Nghasnewydd" ac wedi sefydlu mentrau dim goddefgarwch ar gyfer tipio anghyfreithlon ledled y ddinas."

Mewn ymateb diweddar i'm 'cwestiwn ar unrhyw adeg' ynghylch lefelau pryderus o dipio anghyfreithlon yn y ddinas, nododd yr Aelod Cabinet yn syml "O ran tipio anghyfreithlon mae gan Gasnewydd y gyfradd erlyn llwyddiannus ail uchaf yng Nghymru"

Fodd bynnag, os edrychwn yn fanwl ar yr ystadegau ar gyfer y cyfnod blaenorol 2022/2023 (ffynhonnell Llywodraeth Cymru) roedd 5,631 o ymchwiliadau a gynhaliwyd gan CDC a llai na 40 o ddirwyon a roddwyd (dim ond 14 erlyniad a wnaed).

A all yr Aelod Cabinet gadarnhau, gan barhau fel rhan o'r cynllun corfforaethol ac yn awr dan ei goruchwyliaeth; bod y weinyddiaeth hon gan CDC wir wedi sefydlu a chynnal dull dim goddefgarwch o ymdrin â thipio anghyfreithlon ac, os felly, pam mae'r Aelod Cabinet yn

credu bod y duedd yn parhau'n un sydd ag achosion cynyddol o dipio anghyfreithlon ledled Casnewydd?

**Ymateb gan y Cyngorydd Forsey:**

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cynyddu'r adnoddau sydd ar gael i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon, trwy ehangu'r tîm ymgysylltu a gorfodi gwastraff. Bu mwy o waith hefyd gyda sefydliadau partner a grwpiau gwirfoddol, a nifer o brosiectau allweddol fel ymgyrchoedd cudd neu'r prosiect llwyddiannus Ffordd at Natur.

Mae'r Cyngor yn annog pobl i adrodd am dipio anghyfreithlon, ac mae'r tîm gwastraff yn cynnal llwybrau rhagweithiol ac yn monitro mannau problemus. Er y gall hyn oll arwain at gynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cofnodi a'u hadrodd, dyma'r dull cywir o sicrhau bod digwyddiadau tipio anghyfreithlon yn cael eu rheoli'n ddigonol, ac yn bwysicach na hynny mae wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y camau a gymerwyd o ganlyniad.

Mae gweithredoedd yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau ac mewn llawer o achosion, ni all swyddogion gyrraedd y camau Hysbysiad Cosb Benodedig neu erlyn oherwydd diffyg tystiolaeth, gan fod rheolau penodol y mae angen eu dilyn ac mae'r broses gyfreithiol yn gymhleth. Dyma pam mae lefel y cosbau wedi'u cyhoeddi ledled y DU yn draddodiadol wedi bod isel ac yn dal i fod yn isel, fodd bynnag, mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi gwella'n ddramatig dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae'r duedd hon yn parhau.

Daeth hyn â chyfarfod y cyngor llawn i ben. Dyddiad y cyfarfod nesaf ar gyfer y Cyngor fyddai dydd Iau 29 Chwefror 2024.